Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Ebrill a Mai 2024

Adroddiad yn crynhoi data am weithgarwch a pherfformiad yn y GIG yng Nghymru ar gyfer Ebrill a Mai 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 20 Mehefin 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Mehefin 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Prif bwyntiau**

**Gofal heb ei drefnu**

**Gofal wedi ei drefnu**

**Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**

**Diweddariad nesaf**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae’r datganiad ystadegol hwn yn rhoi crynodeb misol o ddata perfformiad a gweithgarwch GIG Cymru. Mae tueddiadau tymor hwy yn cael eu harchwilio yn ein hadroddiadau blynyddol, **Tueddiadau yng ngweithgarwch gofal brys a gofal mewn argyfwng y GIG** a **Tueddiadau yng ngweithgarwch gofal a gynlluniwyd y GIG**.

Yn sgil yr effaith y mae COVID-19 wedi ei chael ar lefelau perfformiad a gweithgarwch y GIG, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru**. Mae’r cynllun hwn yn nodi nifer o uchelgeisiau allweddol i leihau amseroedd aros ar gyfer pobl yng Nghymru. Mae’r mesuriadau perfformiad hyn yn erbyn yr uchelgeisiau hyn wedi’u hymgorffori gennym yn y datganiad ystadegol hwn ac ar StatsCymru.

Mae’r data a ddarperir yn yr adroddiad ystadegol hwn wedi cael eu darparu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) oni nodir yn wahanol. Ceir rhagor o fanylion ar y data ym mhob maes pwnc ar ein gwefan **StatsCymru**.

Sylwch fod rhai newidiadau i’r ffordd mae’r data’n cael eu casglu wedi effeithio ar restrau aros a gwasanaethau Therapi mis Ebrill ar gyfer Atgyfeiriad at Driniaeth (RTT). Rhoddir gwybodaeth am y newidiadau hyn a’r effaith ar yr ystadegau yn yr adrannau perthnasol.

# Prif bwyntiau

Ym mis Mai, gwnaethpwyd mwy na 92,900 o alwadau i wasanaeth llinell gymorth 111, cynnydd o tua 10,400 o alwadau o’i gymharu â’r mis blaenorol. Cafodd ychydig o dan 64,000 o’r galwadau hyn (68.8%) eu hateb. Cafwyd dros

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

468,400 o ymweliadau â **gwefan GIG 111 Cymru** hefyd, a llenwyd ychydig dros 14,700 o **holiaduron symptomau (GIG 111 Cymru)**.

Ym mis Mai, cafodd y gwasanaeth ambiwlans 5,110 o alwadau coch (bywyd yn y fantol), sef 13.9% o'r holl alwadau. Ar gyfartaledd bob dydd, cafwyd 165 o alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol – 12 yn fwy nag ym mis Ebrill, a dyma'r trydydd ffigur uchaf i gael ei gofnodi erioed.

Cafodd 45.8% o alwadau coch ymateb brys o fewn wyth munud. Roedd hyn 2.2 pwynt canran yn is nag ym mis Ebrill. Dim ond o fis Mai 2019 ymlaen y gellir cymharu data ar gyfer galwadau coch.

Ar gyfartaledd bob dydd, cafwyd 3,215 o ymweliadau ag adrannau brys, sy'n uwch o'i gymharu â'r mis blaenorol. Roedd y perfformiad wedi disgyn o'i gymharu â'r targedau o bedair awr a deuddeg awr. Bu'r amser cyfartalog (canolrifol) a gafodd ei dreulio mewn adrannau brys gynyddu ym mis Mai o'i gymharu â'r mis blaenorol, sef dwy awr a phedwar deg saith munud.

Mae'r pandemig wedi achosi cynnydd mawr mewn llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth. Ym mis Ebrill, cynyddodd y nifer o ychydig o dan 768,900 i ychydig dros 775,000, y ffigur uchaf ar gofnod. Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl sawl llwybr ar agor. Mae mwy o wybodaeth ar gael ym **mlog prif ystadegydd Llywodraeth Cymru**.

Mae gwybodaeth reoli yn awgrymu bod tua 602,900 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru ym mis Ebrill, pan oedd ychydig dros 775,000 o lwybrau cleifion ar agor. Dyma'r ffigur uchaf ar gofnod.

Roedd cyfran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi gostwng i 55.4% ym mis Ebrill. Mae hyn wedi bod yn gymharol sefydlog ar ôl disgyn yn sylweddol o'r lefelau cyn y pandemig. Roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na 36 wythnos wedi cynyddu ym mis Ebrill, i ychydig dros 257,300, gan aros yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd ychydig o dan 21,300 o lwybrau'n aros mwy na dwy flynedd, dwy ran o dair (69.8%) yn is na'r ffigur uchaf a'r cynnydd cyntaf ers y mis blaenorol ar ôl gostwng am bedwar mis ar hugain yn olynol. Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) yr oedd llwybrau cleifion wedi bod yn aros am driniaeth ar ddiwedd mis Ebrill 0.2 pwynt canran yn uwch na'r mis blaenorol ar 22.0 wythnos.

Roedd y **cynllun adfer gofal wedi ei gynllunio** wedi gosod targed i ddileu'r arosiadau dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023, gyda'r 'rhan fwyaf' yn cyfeirio at bob arbenigedd ac **eithrio saith a oedd yn cael eu cydnabod fel rhai eithriadol** o heriol hyd yn oed cyn y pandemig. Ni chyrhaeddwyd y targed ym mis Mawrth 2023 ac ym mis Ebrill roedd 14 arbenigedd arall o hyd, gyda llwybrau'n aros dros ddwy flynedd yn cyfrif am 2,898 o lwybrau, sef cynnydd o 122 o gymharu â'r mis diwethaf.

Nid oes modd cymharu'r prif fesurau ar gyfer llwybrau agored ledled y Deyrnas Unedig. Mae gwahaniaethau mawr rhwng ystadegau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n golygu na ddylid eu cymharu o gwbl. Yn Lloegr, mae'r ddealltwriaeth bresennol yn awgrymu bod modd cynhyrchu nifer cymharol debyg ar gyfer Cymru drwy ddileu rhai llwybrau hysbys nad ydynt yn cael eu harwain gan ymgynghorwyr nad ydynt yn cael eu cyfrif yn Lloegr. Ar y sail honno, mae tua 696,600 o lwybrau agored ar lwybrau sy'n cael eu harwain gan ymgynghorwyr yng Nghymru, sy'n cyfateb i 22 llwybr (nid claf) ar gyfer pob 100 o bobl. Yn Lloegr, roedd y ffigur ym mis Ebrill yn 13 llwybr ar gyfer pob 100 o bobl.

Roedd llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi cynyddu i 65,100, sydd 36.6% yn llai na'r cyfnod prysuraf ym mis Awst 2022. Ni chyrhaeddwyd y targed adfer gofal wedi'i gynllunio i ddileu'r rhain erbyn diwedd 2022.

Ar gyfer gwasanaethau diagnostig, cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i ychydig dros 108,100 ym mis Ebrill. Roedd y nifer a oedd yn aros mwy nag wyth wythnos ar ddeg (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) wedi cynyddu i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ychydig o dan 40,100. Dyma'r ail ffigur isaf ers mis Ebrill 2020. Ar gyfer therapïau, nid oes modd cymharu newidiadau i'r ffigurau casglu data ar gyfer mis Ebrill yn uniongyrchol â'r data blaenorol. Fodd bynnag, roedd ychydig dros 56,300 o therapïau yn aros ym mis Ebrill, ac rydyn ni'n amcangyfrif y byddai hyn wedi bod yn gynnydd bach o'i gymharu â'r mis blaenorol. Roedd y nifer a oedd yn aros mwy na phedair wythnos ar ddeg (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) wedi gostwng i ychydig o dan 5,300. Ni chyrhaeddwyd y targedau adfer gofal wedi'i gynllunio, i ddileu amseroedd aros o fwy nag 8 wythnos ar gyfer profion diagnosteg a 14 wythnos ar gyfer therapïau erbyn Gwanwyn (Mawrth) 2024.

Ar gyfer gwasanaethau canser, dechreuodd mwy o bobl eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ym mis Ebrill nag yn y mis blaenorol, gan godi i 1,800. Roedd nifer y llwybrau a gaewyd ar ôl i'r claf gael gwybod nad oedd canser arno wedi codi i 13,773. Roedd y perfformiad wedi gostwng o gymharu â'r targed 62 diwrnod ym mis Ebrill i 53.8%, o'i gymharu â 60.5% yn y mis blaenorol.

# Gofal heb ei drefnu

Darperir data newydd yn ymwneud â gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Mai 2024.

## Galwadau i wasanaeth 111


Ar 16 Mawrth 2022, cafodd gwasanaeth llinell gymorth 111 ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys ei gyflwyno ledled Cymru.

## Gweithgaredd

### Ffigur 1: Galwadau a dderbyniwyd a galwadau a atebwyd yng

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**ngwasanaeth 111 y GIG**




Disgrifiad o Ffigur 1: Roedd siart linell yn dangos nifer y galwadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth 111 wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod 2023 ond mae wedi dechrau cynyddu yn 2024. Bu gostyngiad yn nifer y galwadau a atebwyd o fewn 60 eiliad yn ystod y misoedd diwethaf.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Gweithgarwch gwasanaeth 111 yng Nghymru, yn ôl dyddiad a mesur, ar StatsCymru**

Ym mis Mai, gwnaethpwyd 92,939 o alwadau i wasanaeth llinell gymorth 111, cynnydd o tua 10,400 o alwadau o’i gymharu â’r mis blaenorol. Atebwyd ychydig o dan 64,000 (68.8%) o’r galwadau hyn, sef cyfartaledd o ychydig o dan 2,100 o alwadau'r dydd.

Cafodd amcangyfrif o 28,967 (31.2%) o alwadau eraill eu terfynu gan y galwr cyn cael eu hateb. O’r rhain, cafodd 10,538 eu terfynu o fewn 60 eiliad i’r negeseuon awtomatig, gan awgrymu bod eu hanghenion yn debygol o fod wedi


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cael eu diwallu.

Cafodd ychydig dros 18,400 o alwadau eu gadael ar ôl 60 eiliad ac ystyrir y rhain yn alwyr yr oedd yn fwy tebygol bod dal angen gwasanaeth arnynt ar ôl y negeseuon ond nad oeddent yn gallu mynd drwodd neu eu bod wedi penderfynu peidio ag aros.

O'r galwadau a atebwyd, nododd 1,710 o alwyr eu bod yn dymuno siarad Cymraeg ar yr alwad.

Cafwyd dros 468,400 o ymweliadau â **gwefan GIG 111 Cymru** a llenwyd ychydig dros 14,700 o **holiaduron symptomau (GIG 111 Cymru)** ym mis Mai.

## Galwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans


Mae amrywiaeth ehangach o ddangosyddion ansawdd ambiwlansys yn cael eu cyhoeddi ar **StatsCymru** a **gwefan Pwyllgor Cydgomisiynu NHS Cymru**

Mae galwadau i’r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel rhai coch (lle mae bywyd yn y fantol), rhai ambr (difrifol ond nid yw bywyd yn y fantol) neu rai gwyrdd (achosion nad ydynt yn rhai brys).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

**Ffigur 2: Nifer cyfartalog y galwadau ambiwlans brys bob dydd, yn ôl math o alwad a mis, Mai 2019 i Mai 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart linell yn dangos nifer y galwadau brys a dderbyniwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Galwad ambr yw'r alwad fwyaf cyffredin ac mae nifer y galwadau coch yn dangos cynnydd dros y blynyddoedd.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

### Galwadau ambiwlans brys ac ymatebion i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis, ar StatsCymru

[Nodyn 1] Roedd diweddaru'r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol cyn ac ar ôl y dyddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Ym mis Mai, gwnaethpwyd ychydig dros 36,600 o alwadau brys i’r gwasanaethau ambiwlans. Roedd hyn yn gyfartaledd o 1,182 o alwadau'r dydd, sef 87 galwad y dydd ar gyfartaledd yn fwy na'r mis blaenorol, a 30 (2.6%) yn fwy o alwadau'r dydd na’r un mis y llynedd.

Ar gyfartaledd, roedd 165 o alwadau coch yn cael eu gwneud bob dydd ym mis Mai, sef 12 yn fwy na’r mis blaenorol a'r trydydd uchaf ar gofnod.

Ym mis Mai, roedd cyfran yr holl alwadau lle’r oedd bywyd yn y fantol yn 13.9%, 0.1 pwynt canran yn is nag ym mis Ebrill, a’r pedwerydd ffigur uchaf ar gofnod.


## Perfformiad

### Targed

- Ymateb i 65% o alwadau coch (lle mae bywyd yn y fantol – mae rhywun mewn perygl o farw’n gyflym, fel ataliad ar y galon) o fewn 8 munud.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 3: Canran y galwadau coch a oedd wedi cael ymateb brys yn y fan a’r lle o fewn 8 munud, Mai 2019 i Mai 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart linell yn dangos bod y perfformiad ar gyfer galwadau ymateb brys wedi gostwng dros y tymor hir. Mae’r perfformiad yn parhau i fod yn is na’r targed o 65%.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Ymatebion brys: perfformiad fesul munud i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis, ar StatsCymru**

[Nodyn 1]: Mae diweddaru’r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Nid yw’n bosibl cymharu’n uniongyrchol cyn ac ar ôl y dyddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.


**Ffigur 4: Canran y galwadau coch a oedd wedi cael ymateb brys yn y fan a’r**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### lle o fewn 8 munud, fesul Bwrdd Iechyd Lleol, Mai 2024




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart far yn dangos bod y perfformiad yn is na’r lefel darged ar gyfer galwadau ymateb brys ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Ymatebion brys: perfformiad fesul munud i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis, ar StatsCymru**

Ym mis Mai, cyrhaeddwyd 45.8% o’r ymatebion brys i alwadau (coch) lle mae bywyd yn y fantol o fewn 8 munud ar ôl pennu lleoliad y claf a’r brif gŵyn. Roedd hyn 2.2 pwynt canran yn is nag yn y mis blaenorol, a’r ail isaf ar gofnod.

Ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol, roedd y gyfran uchaf o alwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn 8 munud i’w gweld yng Nghaerdydd a’r Fro (52.3%), a’r isaf yng Nghwm Taf Morgannwg (41.0%).

Mae cyfran y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn 8 munud wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf o’r ffigur uchaf o 80% yn 2017, ond

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dros yr un cyfnod mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y galwadau coch a dderbyniwyd. Er enghraifft, yn y deuddeng mis diwethaf roedd tua 56,000 o alwadau coch, mwy na dwywaith cymaint ag yn 2017 (22,000). Mae'r cynnydd cyffredinol yn y galw yn adlewyrchu dau beth i raddau helaeth; newidiadau yn y ffordd yr ymdrinnir â rhai galwadau, gan fod rhai galwadau a arferai gael eu categoreiddio fel galwadau ambr bellach yn cael eu categoreiddio fel rhai coch; a chynnydd mawr mewn cyflyrau anadlol yn ystod gaeafau diweddar.

Ar wahân i'r galw, gall oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn ysbytai effeithio ar berfformiad hefyd, pan nad yw criwiau ambiwlans yn gallu ymateb i alwadau newydd wrth aros i drosglwyddo cleifion i adrannau brys. Mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn oedi wrth drosglwyddo yn y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy na phedair gwaith yn fwy o oriau'n cael eu colli yn ystod y deuddeg mis diwethaf o'i gymharu â 2017. Mae rhagor o ddata am oedi wrth drosglwyddo ar gael ar **ddangosfwrdd Dangosyddion Gwasanaeth Ambiwlans y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys**.

Mae'r amser ymateb canolrifol dros y pedair blynedd cyn y pandemig yn amrywio rhwng 4 munud 30 eiliad a 6 munud yng nghyswllt galwadau coch. Ym mis Mai, yr amser ymateb cyfartalog (canolrifol) i alwadau 'coch' lle'r oedd bywyd yn y fantol oedd 8 munud a 37 eiliad. Mae hyn 20 eiliad yn arafach nag yn y mis blaenorol a munud a 12 eiliad yn arafach nag ym mis Mai 2023.

Mae'r mwyafrif o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel galwadau 'ambr', ac nid oes targed perfformiad ar gyfer amseroedd ymateb galwadau. Ym mis Mai, yr amser ymateb canolrifol ar gyfer galwadau ambr oedd 1 awr 38 munud a 3 eiliad. Roedd hyn ychydig o dan 23 munud yn arafach nag ym mis Ebrill, ond ychydig o dan 40 munud yn arafach nag ym mis Mai 2023.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ymweliadau ag adrannau achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty

Mae ystod ehangach o ystadegau perfformiad adrannau achosion brys yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr **Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol,** fel gwybodaeth reoli.

### Gweithgaredd

**Ffigur 5: Nifer gyfartalog yr ymweliadau ag adrannau damweiniau, a derbyniadau i ysbytai o ganlyniad i ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys mawr, Mai 2019 i Mai 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 5: Siart linell yn dangos ymweliadau ag adrannau achosion brys, sydd fel arfer yn uwch yn ystod misoedd yr haf na'r gaeaf, ond sydd fel arall yn aros yn gymharol sefydlog. Cafwyd gostyngiad yn nifer yr ymweliadau yn ystod pandemig COVID-19.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Set ddata adrannau achosion brys, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys GIG Cymru, fesul band oedran, rhyw a safle, ar StatsCymru**

[Nodyn 1]: Mae'r Siart yn dangos nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys mawr ac unedau mân anafiadau, a nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar ôl mynd i adrannau achosion brys mawr yn unig.

Ym mis Mai, roedd ychydig o dan 99,700 o ymweliadau â'r holl adrannau brys, sef 3,215 o ymweliadau ar gyfartaledd bob dydd; roedd hyn 150 yn fwy bob dydd ar gyfartaledd nag yn y mis blaenorol.

Ym mis Mai, derbyniwyd ychydig dros 15,300 o gleifion i'r un ysbyty neu i ysbyty gwahanol ar ôl bod mewn adrannau achosion brys mawr. Roedd hyn 5.5% yn uwch na'r mis blaenorol, ond 2.1% yn is na'r un mis yn 2023.


## Perfformiad

### Targedau

- Dylai 95% o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Ni ddylai'r un claf orfod aros mwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 6: Canran y cleifion sy’n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau achosion brys, Mai 2019 i Mai 2024**





Disgrifiad o Ffigur 6: Siart linell yn dangos bod canran y cleifion a gafodd eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau brys wedi gostwng yn ystod pandemig y coronafeirws, a bod y canran hynny wedi sefydlogi ar y cyfan ers 2021.

Ffynhonnell: Set ddata adrannau achosion brys, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Perfformiad yn erbyn targed 4 awr fesul ysbyty, ar StatsCymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 7: Canran y cleifion sy’n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau achosion brys, fesul Bwrdd Iechyd Lleol, Mai 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 7: Siart far yn dangos bod y perfformiad yn is na’r targed perfformiad 4 awr ar gyfer adrannau brys ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol.

Ffynhonnell: Set ddata adrannau achosion brys, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Perfformiad yn erbyn targed 4 awr fesul ysbyty, ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o’r ffigur hwn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys o’i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael drwy’r ddolen StatsCymru.

Ym mis Mai, roedd 69.7% o gleifion yn holl adrannau achosion brys y GIG wedi treulio llai na 4 awr yn yr adran, o’r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Roedd hyn 0.5 pwynt canran yn is na’r mis blaenorol, ond mae’n parhau yn gymharol isel mewn cyd-destun


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hanesyddol.

Bwrdd Iechyd Bae Abertawe welodd y gyfran uchaf yn treulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys (78.1%), ac ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro oedd y gyfran isaf (63.7%).

Yn 2019, yr amser canolrifol a dreuliwyd mewn adran achosion brys oedd tua 2 awr 30 munud. Yn ystod rhan gyntaf y pandemig, wrth i nifer yr ymweliadau ostwng, roedd canolrif yr amser a dreulir yn yr adran wedi gostwng i isafbwynt o 1 awr a 47 munud ym mis Ebrill 2020. Ers hynny, mae canolrif yr amseroedd wedi cynyddu ac wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, sef 3 awr ac 8 munud ym mis Mawrth 2022. Yn y data diweddaraf ar gyfer mis Mai, canolrif yr amser aros oedd 2 awr a 41 munud, sef 1 munud yn arafach na'r mis blaenorol.

Mae canolrif yr amser sy'n cael ei dreulio mewn adran achosion brys yn amrywio yn ôl oedran. Cyn y pandemig, roedd plant (rhwng 0 a 4 oed) yn treulio rhwng 1 awr a 30 munud a 2 awr mewn adrannau achosion brys, ac roedd cleifion hŷn (85 oed a hŷn) yn treulio rhwng 3 awr a 30 munud a 5 awr.

Ym mis Mai, treuliodd plant (0-4 oed) gyfartaledd o 2 awr a 7 munud mewn adrannau brys. Treuliodd oedolion 85 oed a hŷn gyfartaledd o 5 awr ac 21 munud mewn adrannau brys.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 8: Cleifion sy’n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau mewn adrannau achosion brys y GIG, Mai 2019 i Mai 2024**




Disgrifiad o Ffigur 8: Siart linell yn dangos nifer y cleifion sy’n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau mewn adrannau brys, a oedd wedi gostwng yn sydyn yn ystod cyfnod cychwynnol y coronafeirws. Gwelwyd ychydig o ostyngiad yn ddiweddar, ar ôl tuedd hirdymor am i fyny.

Ffynhonnell: Set ddata adrannau achosion brys, Iechyd a Gofal Digidol Cymru


## Perfformiad yn erbyn y targed 12 awr fesul ysbyty, ar StatsCymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 9: Cleifion sy'n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o adrannau brys y GIG, fesul Bwrdd Iechyd Lleol, Mai 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 9: Siart far yn dangos bod cleifion yn aros mwy na 12 awr ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol.

Ffynhonnell: Set ddata adrannau achosion brys, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

### Perfformiad yn erbyn y targed 12 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o'r ffigur hwn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys o'i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael drwy'r ddolen StatsCymru flaenorol.

Ym mis Mai, roedd 10,519 o gleifion wedi aros 12 awr neu fwy. Roedd hyn 869


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

(9.0%) yn fwy na'r mis blaenorol. Wedi ei addasu yn ôl ymweliadau, roedd mwy o gleifion yn aros mwy na 12 awr ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr (1309) nag mewn unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol arall. Roedd y ffigur isaf ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (753). Heb addasu yn ôl ymweliadau, roedd y nifer uchaf ac isaf o gleifion a oedd yn aros mwy na 12 awr hefyd ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr (3,063) a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (916).

## Gofal wedi ei drefnu

Darperir data newydd yn ymwneud â gofal wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2024. **Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru bellach yn cyhoeddi dangosfwrdd gofal eilaidd sy'n darparu data ar apwyntiadau cleifion allanol, derbyniadau cleifion mewnol a gweithgarwch achosion dydd yng Nghymru.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Atgyfeiriadau ac apwyntiadau cleifion allanol

## Gweithgaredd

**Ffigur 10: Atgyfeiriadau dyddiol cyfartalog ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol, Ebrill 2019 i Ebrill 2024**




Disgrifiad o Ffigur 10: Siart linell yn dangos atgyfeiriadau cleifion allanol, sydd wedi bod yn amrywio gyda'r duedd am i fyny. Yn dilyn gostyngiad mawr mewn atgyfeiriadau ym mis Chwefror 2020 oherwydd pandemig y coronafeirws, mae atgyfeiriadau cleifion allanol wedi cynyddu'n raddol yn uwch na chyn y pandemig.

Ffynhonnell: Set Ddata Atgyfeirio Cleifion Allanol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Atgyfeiriadau fesul bwrdd iechyd lleol a mis, ar StatsCymru**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.


Ar gyfartaledd, roedd 4,454 o atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi'u gwneud bob dydd ym mis Ebrill 2024. Mae hyn yn gynnydd o 12.6% (499 yn fwy o atgyfeiriadau bob dydd ar gyfartaledd) o'i gymharu â mis Mawrth 2024, ac mae'n 17.5% o gynnydd o'i gymharu â mis Ebrill 2023 a'r ail ffigur uchaf ar gofnod.

## Perfformiad

### Targedau

- Neb yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol erbyn diwedd 2022 (targed wedi ei sefydlu yn y **cynllun adfer gofal wedi ei gynllunio**).

**Ffigur 11: Llwybrau sy'n aros mwy na blwyddyn am apwyntiad cyntaf fel claf allanol, Ebrill 2019 i Ebrill 2024**




Disgrifiad o Ffigur 11: Siart linell yn dangos nifer y llwybrau cleifion sy'n aros


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dros flwyddyn, a gynyddodd yn gyflym yn ystod pandemig y coronafeirws cyn haneru i tua 50,000. Mae'r ffigur wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Cynllun adfer COVID-19, uchelgeisiau ar gyfer amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ar StatsCymru**

**Ffigur 12: Llwybrau sy'n aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Ebrill 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 12: Siart far yn dangos nifer y llwybrau cleifion sy'n aros mwy na blwyddyn am apwyntiad cyntaf fel claf allanol, wedi'i addasu yn ôl maint y boblogaeth. Roedd hyn ar ei uchaf ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ac ar ei isaf ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe, lle nad oes llwybrau yn aros mwy na


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf bellach.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

### Cynllun adfer COVID-19, uchelgeisiau ar gyfer amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o'r ffigur hwn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys o'i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael drwy'r ddolen StatsCymru flaenorol.

Ym mis Ebrill, roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi cynyddu 6.6%, o'i gymharu â'r mis blaenorol i 65,100. Ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer adfer gofal wedi ei gynllunio, ond mae wedi gostwng 36.6% ers y lefel uchaf a gyrhaeddwyd ym mis Awst 2022.

Ymysg y Byrddau Iechyd Lleol, roedd y nifer uchaf o lwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn fesul 100,000 o'r boblogaeth ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg (3,342) a'r isaf ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe, lle nad oes unrhyw lwybr yn aros dros flwyddyn am apwyntiad cyntaf bellach.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Amseroedd aros diagnostig a therapi

### Gweithgaredd

**Ffigur 13: Llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi, Ebrill 2019 i Ebrill 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 13: Siart linell yn dangos cynnydd tymor hir yn nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig, gan gynnwys cynnydd sydyn ar ddechrau pandemig y coronafeirws, a nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau therapi sydd wedi gweld tuedd hirdymor am i fyny hefyd.

Ffynhonnell: Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos, ar StatsCymru**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

[Nodyn 1]: Mae’r isafbwynt ym mis Ebrill 2020 ar gyfer therapïau wedi digwydd yn rhannol oherwydd nad oedd Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno data ar gyfer y mis hwn, gweler yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd** i gael rhagor o wybodaeth.

Sylwch fod newidiadau i’r ffordd mae’r data’n cael eu casglu wedi effeithio ar ffigurau mis Ebrill 2024 ar gyfer llwybrau therapïau. Yn benodol, nid yw awdioleg a llwybrau rheoli pwysau yn cael eu hadrodd yn y data therapïau mwyach.

Mae llwybrau awdioleg wedi cael eu tynnu i adlewyrchu safbwynt polisi y dylid eu monitro ar wahân i arbenigeddau therapïau eraill. O ganlyniad, **mae awdioleg bellach yn cael ei adrodd ar wahân ar StatsCymru**. Mae’r llwybrau hyn wedi cael eu tynnu o’r gyfres gefn lawn o ddata therapïau, gan leihau cyfanswm nifer y llwybrau therapïau a adroddwyd tua 10,800, a’r nifer sy’n aros dros 14 wythnos o tua 4,500 o’i gymharu â’r ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Adroddwyd am lwybrau rheoli pwysau yn yr arbenigedd deieteg tan fis Mawrth 2024. O fis Ebrill ymlaen, nid ydynt yn cael eu hadrodd mwyach, yn dilyn ymchwiliad a oedd yn nodi anghysondebau yn y ffyrdd y cawsant eu cofnodi gan fyrddau iechyd. Bydd llwybrau rheoli pwysau yn cael eu hadfer pan fydd modd defnyddio safonau a diffiniadau cyson ledled Cymru. Ni ellir eu tynnu o’r gyfres ddata hanesyddol, sy’n golygu nad oes modd cymharu ffigurau therapïau o fis Ebrill 2024 yn uniongyrchol â’r gyfres hyd at fis Mawrth 2024. Ar sail data mis Mawrth, mae dileu’r llwybrau hyn yn achosi gostyngiad o tua 5,200 o lwybrau therapïau i gyd, ac roedd tua 3,300 ohonynt yn aros dros 14 wythnos.

Ym mis Ebrill, roedd ychydig dros 56,300 o lwybrau cleifion yn aros am therapïau. O ganlyniad i’r newidiadau a ddisgrifiwyd, nid yw’n bosibl mesur y newid yn union o’i gymharu â mis Mawrth. Fodd bynnag, rydyn ni’n amcangyfrif bod cynnydd bach rhwng mis Mawrth a mis Ebrill.

Ym mis Ebrill, roedd ychydig dros 108,100 o lwybrau cleifion yn aros am brofion diagnostig. Roedd hyn 1.1% yn uwch na’r mis blaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Perfformiad

### Targedau

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.
- Fe wnaeth y **cynllun adfer gofal wedi ei gynllunio** roi Gwanwyn 2024 yn ddyddiad targed ar gyfer cyflawni'r targedau hyn.

**Ffigur 14: Llwybrau cleifion sy'n aros yn hirach na'r amser targed am wasanaethau diagnostig a therapi, Ebrill 2019 i Ebrill 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 14: Siart linell yn dangos cynnydd mawr yn nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros dros 8 wythnos am wasanaethau diagnostig ar ddechrau pandemig y coronafeirws, cyn gostwng drwy gydol 2020 ac amrywio ers hynny. Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros mwy na 14 wythnos am wasanaethau therapi wedi cyrraedd y lefel uchaf ym mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2022, ond mae'n amrywio ers hynny. Nid yw lefelau profion diagnostig na therapïau yn agos at y lefelau cyn y pandemig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos, ar StatsCymru

Nodyn 1]: O fis Ebrill 2024 ymlaen, ni chafodd awdioleg a llwybrau rheoli pwysau eu hadrodd yn y data therapïau mwyach, sy'n golygu nad oes modd eu cymharu â data hyd at fis Mawrth 2024.

**Ffigur 15: Llwybrau cleifion (fesul 100,000 o'r boblogaeth) sy'n aros dros yr amser targed am brofion diagnostig a gwasanaethau therapi fesul Bwrdd Iechyd Lleol, Ebrill 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 15: Siartiau bar yn dangos bod gan bob Bwrdd Iechyd Lleol lwybrau sy'n aros mwy na'r amser targed ar gyfer diagnosteg a therapïau.

Ffynhonnell: Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos, ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o'r ffigur hwn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddarperir ym Mhowys o’i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael drwy’r ddolen StatsCymru flaenorol.

Ddiwedd mis Ebrill, roedd ychydig o dan 40,100 o lwybrau cleifion yn aros yn hirach na’r amser targed am brofion diagnostig. Roedd hyn 0.5% yn uwch nag yn y mis blaenorol, a’r ail isaf ers mis Ebrill 2020. Ni chyrhaeddwyd y targed adfer gofal wedi’i gynllunio, i ddileu amseroedd aros o fwy nag 8 wythnos ar gyfer profion diagnosteg erbyn Gwanwyn (Mawrth) 2024.

Ddiwedd mis Ebrill, roedd ychydig o dan 5,300 o lwybrau cleifion yn aros yn hirach na’r amser targed ar gyfer therapïau. Oherwydd y newidiadau yn y gwaith o gasglu data a ddisgrifir uchod, nid yw’n bosibl mesur y gwahaniaeth yn union rhwng mis Mawrth a mis Ebrill. Fodd bynnag, rydyn ni’n amcangyfrif bod gostyngiad yn y mis diwethaf sy’n aros am fwy na 14 wythnos. Ni chyrhaeddwyd y targed adfer gofal wedi’i gynllunio, i ddileu amseroedd aros o fwy nag 14 wythnos erbyn Gwanwyn (Mawrth) 2024.

Roedd y nifer uchaf o lwybrau diagnostig a oedd yn aros mwy na’r amser targed fesul 100,000 o’r boblogaeth ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro (2,934) ac roedd y nifer uchaf o therapïau ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda (422). Roedd y nifer isaf o lwybrau diagnostig a oedd yn aros mwy na’r amser targed fesul 100,000 o’r boblogaeth yn ardal Aneurin Bevan (667) ac roedd y nifer isaf o therapïau ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe (0).

Roedd canolrif yr amseroedd aros am brofion diagnostig yn weddol sefydlog ers 2017 (2.8 wythnos ar gyfartaledd) ac ar gyfer gwasanaethau therapi ers 2018 (3.6 wythnos ar gyfartaledd). Roedd canolrif yr amseroedd aros am y ddau wasanaeth wedi cyrraedd y lefel uchaf yn 2020 (14.3 wythnos ar gyfer diagnosteg ac 14.9 wythnos ar gyfer therapïau).

Ym mis Ebrill, 5.3 wythnos oedd canolrif yr amser aros ar gyfer profion diagnostig, o’i gymharu â 5.2 yn y mis blaenorol. Roedd canolrif yr amser aros am wasanaethau therapi yn 3.9 wythnos, o’i gymharu â 4.9 yn y mis blaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae’r ystadegau ar gyfer yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn dangos data misol ar yr amseroedd aros ar gyfer llwybrau sydd ar agor ac wedi cau ar ôl derbyn atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i’r ysbyty am driniaeth yn y GIG. Llwybrau agored yw’r rheini sy’n aros ar y rhestr aros am driniaeth, ac mae llwybrau sydd wedi cau yn golygu’r rheini sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr aros.

Mesurir gweithgarwch yn ôl llwybrau cleifion, sy’n wahanol i nifer y cleifion. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth hwn ar gael ym **mlog prif ystadegydd Llywodraeth Cymru**.

Mae gwybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu yn cael ei chyhoeddi hefyd, ar gyfer nifer y cleifion unigol sydd ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru.


### Perfformiad

#### Targedau

- Dim cleifion yn aros mwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023, a dim cleifion yn aros mwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn gwanwyn 2025 (targedau newydd wedi'u sefydlu yn y **cynllun adfer gofal wedi ei gynllunio**).
- 95% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos ar ôl atgyfeirio.
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeirio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 16: Llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth, Ebrill 2019 i Ebrill 2024**




Disgrifiad o Ffigur 16: Siart linell yn dangos bod y nifer sy’n aros wedi cynyddu’n sylweddol ers pandemig y coronafeirws. Gwelwyd cynnydd yn nifer y llwybrau cleifion sy’n aros mwy na blwyddyn a dwy flynedd oherwydd pandemig y coronafeirws, ond mae’r niferoedd yn gostwng erbyn hyn.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru


**Llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth fesul mis, wythnosau wedi’u grwpio a cham y llwybr, ar StatsCymru**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 17: Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth, fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Ebrill 2024 (cyfanswm sy'n aros) [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 17: Siart far sy'n dangos mai bwrdd iechyd Aneurin Bevan, wedi'i addasu yn ôl poblogaeth, sydd â'r nifer lleiaf o lwybrau sy'n aros i ddechrau triniaeth, a bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro sydd â'r nifer mwyaf.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth fesul mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr, ar StatsCymru


[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o'r ffigur hwn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys o'i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael drwy'r ddolen StatsCymru flaenorol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 18: Llwybrau cleifion sy’n aros dros flwyddyn i ddechrau triniaeth, fesul 100,000 o’r boblogaeth, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Ebrill 2024 [Nodyn 1]**





Disgrifiad o Ffigur 18: Siart far sy’n dangos mai Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, wedi’i addasu yn ôl poblogaeth, sydd â’r nifer lleiaf o lwybrau sy’n aros dros flwyddyn, a Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro sydd â’r nifer mwyaf.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 19: Llwybrau cleifion sy'n aros dros ddwy flynedd i ddechrau triniaeth, fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Ebrill 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 19: Bwrdd Iechyd Hywel Dda sydd â'r nifer lleiaf o lwybrau sy'n aros mwy na dwy flynedd, a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr sydd â'r nifer mwyaf.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth fesul mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr, ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o'r ffigurau hyn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys o'i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael drwy'r ddolen StatsCymru flaenorol.

O fis Ebrill 2024 ymlaen, mae rhai llwybrau nad oeddent wedi cael eu hadrodd o'r blaen wedi cael eu cynnwys yn y mesur swyddogol o lwybrau RTT. Mae'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhain yn 602 o lwybrau ym maes llawfeddygaeth blastig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r llwybrau hyn yn cael eu comisiynu gan PBC ond yn cael eu harwain gan ymgynghorwyr o ymddiriedolaethau GIG Lloegr fel rhan o drefniadau ar gyfer rheoli gofal trawsffiniol. Bydd llwybrau plastig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau a adroddir nes bod cyfrifoldeb clinigol yn cael ei drosglwyddo i ymddiriedolaeth GIG Lloegr. Ym mis Ebrill, roedd ychydig dros 775,000 o lwybrau cleifion yn aros i ddechrau triniaeth. Roedd hyn yn gynnydd o tua 6,100 o lwybrau o'i gymharu â mis Mawrth a 70.7% yn uwch na mis Mai 2020. Dyma'r ffigur uchaf ar gofnod. Mae rhywfaint o'r cynnydd yn y mis diwethaf yn deillio o gynnwys y llwybrau llawdriniaeth plastig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Ebrill.

Nid oes modd cymharu'r prif fesurau ar gyfer llwybrau agored ledled y Deyrnas Unedig. Mae gwahaniaethau mawr rhwng ystadegau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n golygu na ddylid eu cymharu o gwbl. Yn Lloegr, mae'r ddealltwriaeth bresennol yn awgrymu bod modd cynhyrchu nifer cymharol debyg ar gyfer Cymru drwy ddileu rhai llwybrau hysbys nad ydynt yn cael eu harwain gan ymgynghorwyr nad ydynt yn cael eu cyfrif yn Lloegr. Ar y sail honno, mae tua 696,600 o lwybrau agored ar lwybrau sy'n cael eu harwain gan ymgynghorwyr yng Nghymru, sy'n cyfateb i 22 llwybr (nid claf) ar gyfer pob 100 o bobl. Yn Lloegr, roedd y ffigur ym mis Ebrill yn 13 llwybr ar gyfer pob 100 o bobl. Mae'r cymariaethau hyn yn cael eu harchwilio ymhellach yn y **blog hwn gan y Prif Ystadegydd**.

O'r cyfanswm o 775,000 o lwybrau roedd tua 148,200 o lwybrau'n aros mwy na blwyddyn ym mis Ebrill. Roedd y nifer hwn 3.2% yn uwch na'r mis diwethaf. Roedd bron i 21,300 yn aros mwy na dwy flynedd. Mae'r rhif hwn 3.2% yn uwch na'r mis blaenorol ac mae 69.8% yn is na'r brig ym mis Mawrth 2022.

Wedi ei addasu yn ôl poblogaeth, gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro oedd y nifer uchaf o lwybrau a oedd yn aros (29,628 fesul 100,000). Roedd y nifer mwyaf a oedd yn aros mwy na blwyddyn ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (6,231) ac roedd y nifer mwyaf a oedd yn aros mwy na dwy flynedd ym Mwrdd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Iechyd Betsi Cadwaladr (1,320). Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan oedd â'r nifer isaf yn aros yn gyffredinol (23,209). Bwrdd Iechyd Bae Abertawe oedd â'r nifer isaf yn aros mwy na blwyddyn (3,274) ac roedd y nifer isaf a oedd yn aros mwy na dwy flynedd ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda (390).

Roedd y cynllun adfer gofal wedi ei gynllunio wedi gosod targed i ddileu'r arosiadau dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023. Mae hyn yn cael ei asesu ar y sail bod 'y rhan fwyaf' yn cyfeirio at bob arbenigedd ac eithrio saith sy'n cael eu cydnabod fel rhai eithriadol o heriol, gyda niferoedd mawr yn aros hyd yn oed cyn pandemig COVID-19. Y rhain yw Dermatoleg, Llawfeddygaeth Gyffredinol, Offthalmoleg, Wroleg, Gynaecoleg, Orthopaedeg a Chlust, Trwyn a Gwddf. Ni chyrhaeddwyd y targed ym mis Mawrth 2023 ac ym mis Ebrill roedd 14 arbenigedd arall o hyd, gyda llwybrau'n aros dros ddwy flynedd yn cyfrif am 2,898 o lwybrau, sef cynnydd o 121 o gymharu â'r mis diwethaf.

Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl sawl llwybr ar agor.


Nid oes gennym ystadegau swyddogol ynghylch nifer y cleifion unigol sy'n aros i ddechrau triniaeth. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth reoli yn amcangyfrif bod tua 602,900 o gleifion unigol ar restrau aros yng Nghymru ym mis Ebrill, pan oedd yr Ystadegau Gwladol (uchod) yn adrodd bod ychydig dros 775,000 o lwybrau cleifion yn agored, sef y nifer uchaf ar gofnod.

Yn wahanol i'r Ystadegau Gwladol sydd wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r datganiad hwn, a aseswyd yn annibynnol yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer ystadegau, mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar wybodaeth reoli. Er bod egwyddorion y Cod Ymarfer wedi'u cymhwyso, nid yw sicrhau ansawdd yn cyfateb i lefel yr Ystadegau Gwladol. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddeall cryfderau a chyfyngiadau'r data hyn, a bydd hyn yn cael ei gyfleu'n glir wrth i ni ddysgu rhagor. Am y rhesymau hyn, mae mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrif hwn na'r ffigurau eraill yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, mae lefel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

diddordeb y cyhoedd mewn deall nifer y cleifion yn ychwanegol at nifer y llwybrau cleifion yn ychwanegu digon o werth i gyflwyno'r wybodaeth hon.

**Ffigur 20: Canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos, yn ôl mis**




Disgrifiad o Ffigur 20: Siart linell yn dangos bod canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos wedi gostwng yn sydyn yn ystod pandemig y coronafeirws, ac mae'r perfformiad wedi sefydlogi rhwng tua 50 a 60% ers hynny, gan gynyddu'n araf.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru


### Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 21: Canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos, fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Ebrill 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 21: Siart far yn dangos bod perfformiad ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol yn is na'r targed o 95%.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru


[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o'r ffigur hwn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys o'i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael drwy'r ddolen StatsCymru flaenorol.

O blith ychydig dros 775,000 o lwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth erbyn diwedd mis Ebrill, roedd 55.4% wedi bod yn aros llai na 26 wythnos. Roedd hyn 0.6 pwynt canran yn is nag yn y mis blaenorol, a 26.5 pwynt canran yn is nag ym mis Mawrth 2020. Roedd y gyfran uchaf a oedd yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

aros llai na 26 wythnos ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe (60.3%) a’r isaf ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg (52.3%).

**Ffigur 22: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos, fesul mis ac wythnosau o aros**




Disgrifiad o Ffigur 22: Siart far yn dangos nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros mwy na 36 wythnos, wedi’i addasu yn ôl maint y boblogaeth, sy’n dangos y ffigurau uchaf ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro a’r isaf ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru


## Canran y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 23: Llwybrau cleifion a gaewyd, fesul mis [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 23: Siart far yn dangos nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros mwy na 36 wythnos, wedi'i addasu yn ôl maint y boblogaeth, sy'n dangos y ffigurau uchaf ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a'r isaf ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o'r ffigur hwn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys o'i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael yn y ddolen StatsCymru flaenorol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Ebrill, roedd ychydig dros 257,300 o lwybrau cleifion wedi bod yn aros mwy na 36 wythnos. Roedd hyn yn 33.2% o'r holl lwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth. Roedd hyn 6,058 (neu 2.4%) yn fwy nag yn y mis blaenorol ac yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol. Roedd y nifer uchaf o lwybrau a oedd yn aros mwy na 36 wythnos fesul 100,000 o'r boblogaeth ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (10,529), ac roedd yr isaf ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe (6,548).

Roedd canolrif yr amser aros i ddechrau triniaeth wedi bod tua 10 wythnos cyn y pandemig rhwng diwedd 2013 a mis Chwefror 2020. Cynyddodd hyn yn ystod y pandemig a chyrhaeddodd y lefel uchaf erioed o 29 wythnos ym mis Hydref 2020. Ym mis Ebrill, roedd canolrif yr amser aros yn 22.0 wythnos, a oedd yn 0.2 wythnos yn hwy na'r mis blaenorol.

**Ffigur 24: Llwybrau cleifion a gaewyd, fesul mis [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 24: Siart linell yn dangos nifer y llwybrau cleifion a gaewyd, sydd fel arfer yn amrywio. Ar ôl gostyngiad mawr ym mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig y coronafeirws, mae nifer y llwybrau a gaewyd wedi codi'n raddol i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

lefelau cyn y pandemig.

Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Llwybrau cleifion ar gau yn ôl y mis, y bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros, ar StatsCymru**

[Nodyn 1]: Diwygiwyd y data i gynnwys llwybrau a gaewyd ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg erbyn hyn. Hyd at ddatganiad ystadegol Gorffennaf 2022, nid oedd y gyfres ddata ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Cafodd bron i 108,456 o lwybrau cleifion eu cau ym mis Ebrill. Roedd hyn yn gyfartaledd o 5,165 o lwybrau cleifion yn cau bob diwrnod gwaith. Roedd hyn yn gynnydd o 9 llwybr cleifion (neu 0.2%) yn cael eu cau fesul diwrnod gwaith o'r mis blaenorol.


## Gwasanaethau canser

**Mae nifer o fesurau ehangach o'r llwybr amheuaeth o ganser yn cael eu cynhyrchu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

### Ffigur 25: Llwybrau amheuaeth o ganser a gaewyd yn y mis, fesul mis a chanlyniad [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 25: Siart linell yn dangos nifer y llwybrau cleifion a gafodd wybod nad oes canser arnynt, sy'n amrywio ond yn dangos tuedd am i fyny, a nifer y cleifion sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf, sydd wedi bod yn gymharol sefydlog ers dechrau cofnodi.

Ffynhonnell: Llwybr Amheuaeth o Ganser, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi'u cau) ar StatsCymru**

[Nodyn 1]: Cyflwynwyd proses newydd o gasglu data am y llwybr amheuaeth o ganser ym mis Rhagfyr 2020.

Ym mis Ebrill, dechreuodd 1,800 o lwybrau, lle'r oedd cleifion newydd gael diagnosis o ganser, eu triniaeth ddiffiniol gyntaf yn ystod y mis. Roedd hyn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

10.2% yn fwy na’r mis blaenorol.

Cafodd 13,773 o lwybrau eu cau, ar ôl i gleifion gael gwybod nad oedd ganddynt ganser. Mae hyn 2.6% yn fwy na’r mis blaenorol.

Ym mis Ebrill, agorwyd 17,138 o lwybrau cleifion yn ystod y mis yn dilyn amheuaeth newydd o ganser. Roedd hyn yn gynnydd o 1,579 (10.1%) o’i gymharu â’r mis blaenorol ac yn gynnydd o 23.2% o’i gymharu â mis Ebrill 2023. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y llwybrau newydd a agorwyd wedi amrywio, ond mae wedi sefydlogi dros y misoedd diwethaf.


## Perfformiad

### Targed

- Dylai o leiaf 75% o gleifion ddechrau cael triniaeth o fewn 62 diwrnod (heb ohiriadau) ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Nid yw'r targed yn berthnasol i ddata a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnodau amser cyn Rhagfyr 2020.
- Fe wnaeth y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio** sefydlu targed newydd o 80%, i'w gyrraedd erbyn 2026.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 26: Canran y llwybrau lle dechreuodd y claf ei driniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn yr amser targed, fesul mis [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 26: Siart linell yn dangos canran y llwybrau cleifion a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf a'r targed perfformiad o 75%. Mae'r perfformiad yn amrywio, ond cafwyd tuedd gyffredinol am i lawr yn y blynyddoedd diwethaf.

Ffynhonnell: Llwybr Amheuaeth o Ganser, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi'u cau) ar StatsCymru**


[Nodyn 1]: Cafodd y gwaith newydd o gasglu data am y Llwybr amheuaeth o ganser ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2020, gyda tharged perfformiad o 75%. Fe wnaeth y cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio sefydlu targed newydd o 80%, i'w gyrraedd erbyn 2026.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 27: Canran y llwybrau lle dechreuodd y claf ei driniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn yr amser targed, fesul Bwrdd Iechyd Lleol, Ebrill 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 27: Siart far yn dangos bod perfformiad ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol yn is na’r lefel darged o 75%.

Ffynhonnell: Llwybr Amheuaeth o Ganser, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi’u cau) ar StatsCymru**

[Nodyn 1]: Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ei eithrio o’r dadansoddiad hwn oherwydd bod gwahaniaethau sylweddol yn nifer a math y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys o’i gymharu â Byrddau Iechyd Lleol eraill. Mae data ar gyfer Powys ar gael ar StatsCymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Ebrill, roedd 53.8% o'r llwybrau wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Roedd hyn 6.7 pwynt canran yn is nag yn y mis blaenorol, a 3.6 pwynt canran yn is nag ym mis Ebrill 2023.

Y gyfran uchaf o lwybrau a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod oedd yng Nghaerdydd a'r Fro (63.7%) a'r isaf yn Hywel Dda (43.0%).

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae'r holl wybodaeth am ansawdd a methodoleg mewn perthynas â'r datganiad ystadegol hwn i'w gweld yn y **Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: adroddiad ansawdd**.

## Statws ystadegau swyddogol

Dylai'r holl ystadegau swyddogol ddangos safonau'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Ystadegau swyddogol achrededig yw'r rhain. Fe'u hadolygwyd yn annibynnol gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ym mis Gorffennaf 2012. Maent yn cydymffurfio â'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir fel rhan o achrediad. Os byddwn yn dechrau pryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Swyddfa yn brydlon. Gellir dileu neu atal achrediad ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyfeirir at ystadegau swyddogol achrededig fel Ystadegau Gwladol yn Neddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) sy'n rheoleiddio ein hymarfer ystadegol. Mae'r Swyddfa'n gosod y safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol lynu wrthynt.

Cynhyrchir a chyhoeddir ein holl ystadegau yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau er mwyn gwella eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Nodir y rhain yn **Natganiad Cydymffurfio** Llywodraeth Cymru.

Mae'r ystadegau swyddogol achrededig hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

Daw'r ystadegau hyn o amryw o ffynonellau sy'n deillio o systemau data gweinyddol a ddefnyddir ar draws y GIG yng Nghymru. Darperir data ar y gwasanaeth 111, galwadau ambiwlans 999 ac amseroedd ymateb ambiwlansys gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), a chesglir yr holl ffynonellau data eraill gan Fyrddau Iechyd Lleol Cymru a'u darparu i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) er mwyn galluogi iddynt gael eu casglu ar lefel genedlaethol.

**Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru (WISB)**, sef ceidwad y Broses Sicrwydd Safonau Gwybodaeth, sy'n goruchwylio'r casgliadau data. Mae'r Bwrdd yn mandadu casgliadau data drwy'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol, yn arfarnu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

safonau gwybodaeth ac yn rhoi sicrwydd ar faterion sy'n ymwneud â chyfrinachedd a chydsyniad.

Crynhoir y ffigurau a gyhoeddwyd gan ddadansoddwyr proffesiynol gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael a defnyddio dulliau gan ddefnyddio eu barn broffesiynol a'u sgiliau dadansoddi.

Cyhoeddir yr ystadegau hyn ymlaen llaw yn **adran Ystadegau ac Ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru**. Cyfyngir mynediad at y data wrth brosesu i'r rheiny sy'n ymwneud â chynhyrchu'r ystadegau, sicrhau ansawdd ac at ddibenion gweithredol. Cyfyngir mynediad cyn rhyddhau'r ystadegau i dderbynyddion cymwys yn unol â'r **Cod Ymarfer**.

## Ansawdd

Mae ystadegau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn glynu wrth y Strategaeth Rheoli Ansawdd Ystadegol sy'n ategu piler Ansawdd y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac egwyddorion ansawdd allbynnau ystadegol y System Ystadegol Ewropeaidd.

Sefydlir safonau a diffiniadau data gan Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru (WISB). Rhoddir arweiniad i'r sefydliadau sy'n darparu data a darperir hyfforddiant i staff sy'n gyfrifol am gasglu'r data yn y tarddiad. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn casglu ac yn dilysu data ac yn gwneud ymholiadau'n uniongyrchol i'r byrddau iechyd ynghylch data afreolaidd a data sydd ar goll. Cyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu setiau data wedi'u dilysu i Lywodraeth Cymru, mae'r byrddau iechyd yn cymeradwyo'r holl ddata. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu setiau data wedi'u dilysu i Lywodraeth Cymru, lle mae dadansoddwyr yn prosesu'r data i gynhyrchu'r ystadegau cyfanredol yn y fformat sydd ei angen i'w cyhoeddi. Cyn eu cyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau dilysu terfynol a gallai gyflwyno ymholiadau yn eu cylch i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r byrddau iechyd. Mae uwch ystadegwyr yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

llofnodi'r datganiad ystadegol cyn ei gyhoeddi.

## Gwerth

Pwrpas y datganiad ystadegol hwn a'r data cysylltiedig a gyhoeddir ar StatsCymru yw: darparu tystiolaeth ar gyfer datblygu polisi; rhoi gwybod i'r cyfryngau a'r cyhoedd yn ehangach am weithgarwch a pherfformiad GIG Cymru; galluogi darparwyr gwasanaethau fel Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i fonitro eu perfformiad eu hunain.

Mae ystadegau dibynadwy ar faint y gweithgarwch a wneir yn y GIG, hyd rhestrau aros, amseroedd ymateb ambiwlansys ac amseroedd aros am driniaethau canser yn hanfodol i roi gwybod i ddefnyddwyr am gyflwr gwasanaethau'r GIG a pherfformiad Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael effaith sylweddol ar fywydau dinasyddion a rhoddir cryn sylw i'r pynciau hyn yn y cyfryngau ac mewn trafodaethau gwleidyddol.

Mae'r wybodaeth a gyhoeddir yma hefyd yn cefnogi cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol: **Cymru Iachach**.

Amseroldeb y data sy'n darparu'r diweddariad mwyaf diweddar gan ddefnyddio data dibynadwy.

Mae croeso i chi gysylltu â ni'n uniongyrchol os oes gennych unrhyw sylwadau am y ffordd rydym yn bodloni'r safonau hyn. Fel arall, gallwch gysylltu â'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau drwy anfon e-bost at **regulation@statistics.gov.uk** neu drwy **wefan yr OSR**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae’n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio’r dangosyddion cenedlaethol, cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol, rhaid iddynt wneud y canlynol: (a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y’u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae’r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli’r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi’r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â’u hasesiadau llesiant lleol a’u cynlluniau llesiant lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir anfon yr adborth drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**.

# Diweddariad nesaf

18 Gorffennaf 2024

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Ryan Pike
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 49/2024

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ebrill-mai-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.